# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 20 MEDI 2023

| PWNC |
| --- |
| **ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 3 2023** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLI ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar y Risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Risgiau Cyfathrebu. |



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
| --- | --- | --- |
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# DYDDIAD 20 MEDI 2023

## ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 3 2023

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Risgiau Cyfathrebu. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon.  Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch4 2023 a bydd yn canolbwyntio ar risgiau yn yr adran Buddsoddiadau.

.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |